**Gwasanaeth Democrataidd / Democractic Service**
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

# ABERDYFI CONSULTATIVE HARBOUR COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30 a.m. DYDD MAWRTH, 3 MAWRTH 2015**

**10.30 a.m. TUESDAY, 3 MARCH 2015**

Lleoliad / Location

**NEUADD DYFI**

**ABERDYFI**

**Gwynedd**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 23.02.14

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

| | |
|---|---|
| Cyng./Cllr. Anne Lloyd Jones<br>Cyng./Cllr. Mike Stevens | Aelodau Tywyn o Gyngor Gwynedd<br>Members of Tywyn of Gwynedd Council |
| Cyng./Cllr. Dewi Owen | Aelod Aberdyfi o Gyngor Gwynedd<br>Aberdyfi Member of Gwynedd Council |
| Cyng./Cllr. D. Richardson | Aelod Cyngor Cymuned Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Community Council |
| Mr Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion<br>Member of the Cardigan Bay Fisheries Association |
| Cyng. / Cllr. Brian Bates | Bad Achub / RNLI |
| Mr Nick Dawson | Aelod o Outward Bound Wales<br>Member of Outward Bound Wales |
| Mr W. Bracewell | Aelod o Bartneriaeth Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Partnership |
| Mr Paul Fowles | Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Chamber of Trade |
| Cyng./Cllr. D. Williams | Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Advertising & Improvements Committee |
| Mr J Eddington | Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Rowing Club |
| Mr Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi<br>Member of the Dyfi Yacht Club |
| Mr N Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Boat Club |

**Sylwedyddion / Observers:**

| | |
|---|---|
| Dr J Jones Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog / Porthmadog Consultative Harbour Committee |
| Y Cyng. / Cllr. Gethin G Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw / Barmouth Habour Consultative Committee |
| Y Cyng. / Cllr. R J Wright | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli / Pwllheli Consultative Harbour Committee |

# R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Cysylltiad Personol**

3. **Cofnodion**

   I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 11 Tachwedd 2014.

   (Copi'n amgaeedig - Papur Gwyn)

4. **Adroddiad y Swyddog Morwrol**

   I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

   (Copi'n amgaeedig - Papur Gwyrdd)

5. **Materion i'w hystyried ar gais aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol**

   (a) Llithrfa Cliffside - Pryder ynglyn â chyflwr gwael y llithrfa.

   (b) Prif Lithrfa wrth ymyl y Bad Achub – Mae pryder ynghylch cyflwr gwael y llithrfa, sydd wedi treulio ac o bosib yn beryglus, yn enwedig yng nghyswllt y dur cyfnerth sydd yn y golwg.

6. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

   I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 12 Tachwedd 2015 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor.

**AG E N D A**

1. **Apologies**

2 **Declaration of Personal Connection**

3. **Minutes**

   To receive and note the minutes of a meeting of the Aberdyfi Harbour Advisory Committee held on the 11 November 2014.

   (Copy enclosed - White Paper)

4. **Report by the Maritime Officer**

   To receive and consider a report by the Maritime Officer, Mr Barry Davies.

   (Copy enclosed - Green Paper)

5. **Matters to be considered at the request of members on the Advisory Committee**

   (a) Cliffside Slipway - The poor condition of the Cliffside slipway is of concern

   (b) Main slipway by RNLI - The poor, and potentially dangerous, worn condition of the slipway is of concern, particularly with regard to exposed steel reinforcing.

6. **Date of Next Meeting**

   To note that the next meeting of the Aberdyfi Harbour Advisory Committee will be held on 12 November 2015 subject to confirmation by Council.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 11 Tachwedd 2014 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Huw Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion), Mr Paul Fowles (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales), Mr Ian Andrews (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llþr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mr Robert Williams | - | Peiriannydd Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd John Wynn Jones (Cyngor Gwynedd)).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen i'r Gadair am y flwyddyn 2014-15.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014-15.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd Mr David Williams fuddiant personol mewn unrhyw fater a drafodir yn ymwneud â'r Bad Achub.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 12 Mawrth 2014.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl**

(i) Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol yn unol â'r cylch gorchwyl a fabwysiadwyd ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr. Tynnwyd sylw at y rhestr o'r sefydliadau a ymatebwyd a oedd wedi ei atodi gydag adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a nodwyd nad oedd rhai sefydliadau wedi anfon y dogfennau cymwys sef cyfansoddiadau a chofnodion cyfredol o'u Cyfarfodydd Blynyddol.

Atgoffwyd y Pwyllgor bod modd ethol hyd at saith aelod i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr Harbwr a phe byddai mwy o sefydliadau yn dangos diddordeb na'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r Aelodaeth mater i'r Aelod Cabinet fydd ystyried a dewis a dethol yr Aelodaeth derfynol. Roedd 10 sefydliad wedi eu rhestru ac anogwyd y sefydliadau hynny nad oedd wedi anfon y dogfennau perthnasol i wneud hynny yn ddi-oed fel y gall yr Aelod Cabinet ystyried Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol.

Tynnwyd sylw mai'r Institiwt oedd un o'r sefydliadau ac oherwydd bod Ysgrifennydd y sefydliad hwnnw yn gweinyddu dau sefydliad efallai, drwy amryfusedd, ni dderbyniwyd y dogfennau perthnasol ar gyfer Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi.

(ii) Nododd y Cadeirydd bryder pe na fyddai'r sefydliadau yn gallu gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol gan fod yr Aelodau hynny sy'n cynrychioli'r gwahanol sefydliadau yn fodlon mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol a bo ganddynt brofiadau yn y maes a dealltwriaeth o weithgareddau'r Harbwr.

(iii) Roedd consensws barn ymysg yr Aelodau nad oedd sefydliad Yr Institwt yn gymwys fel sefydliad i wasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol ac yn wyneb y ffaith bod mwy o sefydliadau wedi dangos diddordeb na'r hyn sydd angen.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod ac annog cynrychiolwyr y sefydliadau i anfon y dogfennau perthnasol i'r Swyddog Cefnogi Aelodau erbyn y 31 Rhagfyr 2013 fel bo modd i'r Aelod Cabinet ystyried yr aelodaeth derfynol.**

**(b) Nad oedd Yr Institiwt yn sefydliad cymwys i wasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol.**

**(B) Cod Diogelwch Harbyrau**

(i) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd wedi derbyn sylwadau ar y cod uchod ac fe fyddir yn parhau i'w adolygu yn flynyddol. Sefydlwyd partneriaeth gyda Harbwr Caernarfon a fydd yn adolygu'r cod ar ran y Cyngor a hyderir y bydd Cyngor Conwy ac Ynys Môn yn rhan o'r bartneriaeth hefyd.

(ii) Parheir i brofi problemau gyda'r Badau Dŵr Personol sydd yn lansio o Geredigion a'i fod yn anodd derbyn cydweithrediad i geisio eu rheoli. Rhaid ymdrin â'r mater yn eithaf sensitif ar hyn o bryd yn y gobaith, yn dilyn cydweithio gyda'r swyddogion perthnasol, y gellir mabwysiadu cynllun cyffelyb i'r hyn a weithredir yng Nghonwy ac Ynys Môn.

(iii) Mewn ymateb i'r uchod, nododd sawl defnyddiwr nad oedd y broblem gynddrwg â'r gorffennol ond ei bod yn bwysig i'r Harbwr Feistr gadw golwg ar y mater.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Harbwr Feistr fonitro'r sefyllfa.**

**(C) Staff Harbwr**

(i) Nodwyd bod Will Stockford wedi ei benodi i'r swydd Harbwr Feistr a hyderir y bydd yn gallu rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r Harbwr. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad a'i

ymrwymiad i'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf a hefyd yn ei waith fel cymhorthydd cyn ei benodiad fel Harbwr Feistr. Nodwyd ymhellach bod y staff tymhorol wedi gweithio'n dda iawn yn Nhywyn ac Aberdyfi yn ystod tymor 2014.

(ii) Ategodd y Cynghorydd David Richardson bod yr Harbwr Feistr wedi gwneud gwaith ardderchog yn ystod y tymor diwethaf a'i fod yn weladwy ar y dŵr yn ogystal ag o amgylch yr Harbwr. Diolchwyd hefyd i Hefin Richards am ei ymroddiad yntau sydd bellach wedi symud i swydd arall.

(iii) Nodwyd bod Ken Fitzpatrick, Swyddog Cynorthwyol Harbwr, wedi ymddeol ond nad yw'r Gwasanaeth wedi penodi olynydd iddo eto. Nodwyd ymhellach bod Harbwr Feistr Porthmadog wedi derbyn swydd arall fel Harbwr Feistr yng Nghaernarfon.

(iv) O safbwynt rhaglen waith y gaeaf, roedd yr ysgolion wedi eu gosod ar y jeti a'r bwi Fairway yn cael ei baentio. Anogwyd yr Aelodau os oes unrhyw fater yn creu pryder iddynt, eu bod yn cysylltu gyda'r Harbwr Feistr yn ddi-oed fel bo modd ceisio cadw'r Harbwr i'r safon ddisgwyliedig.

(v) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag ail-sefydlu'r gweithgorau er mwyn gwneud defnydd o brofiad ac arbenigedd unigolion, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn eu hail-sefydlu yn y Flwyddyn Newydd a bod yr aelodau a oedd a diddordeb yn hyn yn cysylltu gyda'r Swyddog Morworl yn fuan yn 2015 er trefnu cyfarfod.

**(CH) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Nodwyd nad oedd Bwi Rhif 1 ar y safle cywir a bod yr Harbwr Feistr wedi troi'r llusern i ffwrdd, nad oedd golau ar fwi rhif 2; nid yw bwi rhif 7 ar ei safle ychwaith. Nodwyd bod rhybudd wedi ei anfon i forwyr yn tynnu sylw at y diffygion a deallir bod y Bad Achub wedi cael anawsterau ar un achlysur lle roeddynt yn chwilio am unigolyn yn yr aber a'r bwiau ddim ar y safle. Nodwyd ymhellach bod swyddogion Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi ymweld â'r Gwasanaeth Morwrol ac yn anffodus nid oedd dogfennaeth ysgrifenedig briodol ar gael gan y contractwr i gydymffurfio â'u rheolau, ac fe gyflwynwyd rhybudd gwelliant i'r Adran gan yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch. Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r contractwr a hyd nes derbynnir dull o ddatganiad priodol yn ymwneud ag asesiadau risg ni fydd yn gallu codi tri angor sy'n perthyn i'r Cyngor neu yn gallu ail leoli y Cymhorthion Mordwyo. Mae hyn yn bryder mawr i'r adran wrth ystyried pwysigrwydd y Cymhorthion Mordwyo. Mae'n ofynnol i bob contractwr feddu ar y ddogfennaeth berthnasol ble mae rheolau Cenedlaethol yn cyfarwyddo hyn. Byddir yn cydweithio gyda'r contractwyr fel bo modd ymgorffori'r gofynion a threfn newydd o weithio a hyderir y bydd y mater wedi ei ddatrys erbyn diwedd y mis hwn. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â symud tywod, esboniwyd bod natur gwaith ar y traeth yn wahanol i weithdrefnau'r Harbwr ond rhaid meddu ar ddogfennaeth briodol a fydd yn cael eu paratoi maes o law. O safbwynt gwirfoddolwyr yn ymgymryd â gwaith ar yr Harbwr a'i wneud ar fyr rybudd, pwysleisiwyd bod rhaid meddu ar ddogfennaeth sy'n dangos bod asesiad risg wedi ei gwblhau gan fod rhaid cydymffurfio â gofynion yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch ac ni ellir torri'r gyfraith.

(ii) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â chychod yn hwylio i fyny o Aberystwyth, sicrhawyd y byddir yn anfon cylchredeg y rhybudd eto i'r morwyr gan nodi'r angen iddynt gysylltu â'r Harbwr Feistr am gymorth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(D) Ystadegau Morwrol**

(i) Cyfeiriwyd at yr ystadegau o safbwynt niferoedd o gychod pŵer a hwylio gan nodi bod y niferoedd yn parhau i leihau a hynny ar sail yr economi a chyfeiriwyd at gymhariaeth o ystadegau'r holl harbyrau.

(ii) Nododd Aelod bod lleihad yn niferoedd y cychod yn deillio o ddiffyg gwasanaeth yn yr Harbwr o safbwynt lansio a chodi'r cychod. Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod nifer o gychod yn gaeafu ar y cei oherwydd bod costau hurio craen yn uchel a ddim yn gost effeithiol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(DD) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy gyllidebau'r Harbwr gan nodi bod cyfanswm net o £19,336 o danwariant yng nghyllideb 2013/14. Nodwyd bod £32,570 o darged incwm ar gyfer Aberdyfi, gyda £24,129 wedi dod i mewn ond yn gadael £8,000 yn fyr o'r targed.
(ii) O safbwynt flwyddyn gyllidol diwedd Medi 2014 rhagwelir oddeutu £10,000 yn fyr o'r targed incwm.
(iii) Cyfeiriwyd at ffioedd a thaliadau ar gyfer flwyddyn nesaf a olygai oddeutu 1% o gynnydd.
(iii) Nododd Aelod o safbwynt yr incwm a gollir, tybed a fyddai modd codi tâl ar y bordhwyliwyr. Cytunai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r angen i sefydlu trwyddedau a hyderir y gellir gweithredu'r drefn o 1 Ebrill 2015.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) DIGWYDDIADAU**

(a) **Datblygiad Wal y Cei**

Cyflwynwyd cynlluniau yn ystod y cyfarfod i'r Pwyllgor gan Robert Williams, Peiriannydd Cynorthwyol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, a diolchodd y Cadeirydd iddo am drefnu'r cyfarfod agored yn ystod y Gwanwyn pryd y bu nifer yn ymweld â'r cynlluniau. Teimlwyd bod y cyfarfod hwnnw wedi bod o fudd i bawb a fynychodd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

(i) Pryder ynglŷn â'r rheiliau yn enwedig pan fo pysgota am grancod gan aelodau o'r cyhoedd a'i fod yn weithgaredd poblogaidd iawn gan grwpiau a plant yn Aberdyfi

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr un sefyllfa ym Mhorthmadog gyda phlant yn neidio dros y rheiliau ac y byddai angen sicrhau rheolaeth ac ail-edrych ar led y ffens. Ychwanegodd y Peiriannydd bod yn rhaid cadw ardal ar gyfer morwyr a'i fod yn anodd cael cyfuniad i blesio pob defnyddiwr yr Harbwr.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag amserlen, esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned mai gwaith cychwynnol sydd ar y gweill a bod Rhaglen Arian Cydgyfeiriant 2014/15 wedi ei gymeradwyo a bod disgwyl am fwy o wybodaeth ar ganllawiau er mwyn cael mynediad i'r arian Ewropeaidd. O safbwynt y Cyngor, fel rhan o gynlluniau strategol, bod y cynllun yn cydymffurfio â'r elfen sector awyr agored ond bod proses i'w ddilyn o ran sicrhau arian. Os oes cefnogaeth yn lleol, gellir bwrw ymlaen i gael caniatâd statudol ynghyd â'r fanyleb. Ni ragwelir y byddir yn cyflwyno cais tan 2015 ond byddai'n

gyfle i sicrhau sefydlu Is-grŵp i gyflwyno diddordeb a sicrhau cefnogaeth leol. Byddai datganiadau gan y sefydliadau lleol yn gymorth maes o law.

(iii) O safbwynt ardal Bae'r Eglwys, nodwyd ar hyn o bryd mai'r bwriad ydoedd cryfhau ac adnewyddu wal y cei a bo'r pysgotwyr yn trafod hefo cynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion ynglyn â gwelliant i'r fynedfa.

(iv) Ychwanegodd Aelod bod ardal Bae'r Eglwys wedi ei gynllunio'n wael a gan fod cynlluniau ar y gweill y byddai'n gyfle gwych i wella'r ardal yma hefyd. Nodwyd hefyd y byddai'r Bad Achub yn fwy na pharod i drafod ystyried y darlun cyfan yn nhermau'r ardal wrth ochr y Clwb Hwylio a'r Bad Achub lle mae angen gwaith atgyweirio i'r llithrfa o safbwynt iechyd a diogelwch o ganlyniad i draul a gwisgo o ganlyniad i'r llanw.

(v) Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n gyfle i edrych ar y mater ond ei bod yn anodd lansio ym Mae'r Eglwys gan ei fod yn gul. Disgwylir hyd nes bydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion wedi cyflwyno sylwadau ac wedyn byddai'n gyfle i ychwanegu at rhain.

(vi) Nodwyd y byddai'r cynllun yn welliant aruthrol i'r hyn sy'n bodoli gan ei wneud yn hawdd i ymwelwyr fedru cael mynediad i'r pentref, i'r siopau ac i swyddfa'r Harbwr Feistr, yn hytrach na dringo i fyny ysgol serth fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Wal yr Eglwys**

Adroddodd yr Uwch Beiriannydd bod y gwaith ar wal yr Eglwys yn mynd rhagddo yn dilyn cyfnod o oedi ac y bydd yn parhau hyd ddiwedd Ionawr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Clwb Hwylio**

Adroddodd y Swyddog Harbwr a Pharciau Gwledig bod digwyddiadau'r Clwb Hwylio wedi eu cynnal yn hynod o broffesiynol gan Mr Desmond George.

Mewn ymateb, ymhelaethodd Mr George ar y gweithgareddau gan dynnu sylw eu bod yn ymestyn y prif dymor ac o fudd i'r pentref ac i westai.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r gwaith da a wneir gan y Clwb Hwylio drwy gynnal gweithgareddau i ddenu ymwelwyr i Aberdyfi.**

**(ch) Raciau Cychod Gweini**

Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd y raciau uchod wedi eu symud a'u datrys ac fe sicrheir y bydd perchnogion yn eu cofrestru.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(d) Difrod Stormydd y Gaeaf**

Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod gwaith yn mynd rhagddo ar y canlynol:

- wal y cei
- twyni wrth ymyl y Golff
- llwybr pren (nodwyd bod hwn yn her i'w gynnal a'i gadw gan ei fod yn ased ychwanegol sydd wedi ei gyfeirio i'r Gwasanaeth Morwrol)

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(dd) Gwobr Traeth**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod pryder am ansawdd y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi ac yn ddiolchgar am y gwaith a gwblhawyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a hyderir y bydd swyddog yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth i adrodd ar y mater. Drwy gydweithio, cytunwyd i osod arwyddion yn cynghori unigolion i beidio ymdrochi dwy awr pob pen i lanw isel. Nodwyd bod isadeiledd Aberdyfi yn wych ond bod ansawdd y dŵr ddim yn foddhaol ond gobeithir llwyddo i gael Baner Felyn Drefol

Deallir bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymweld â phob ffarm ar y Ddyfi a disgwylir derbyn adroddiad ac ymateb i'r archwiliad yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(e) Consesiwn 2015**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cyflwynwyd un consesiwn ar gyfer 2015 sef i berchennog y mulod.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(F) UNRHYW FATER ARALL**

Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Brian Bates ar adeilad newydd y Bad Achub gan nodi bod ganddynt syniadau sylfaenol ar gyfer yr hyn a fydd yn gyfleuster llwyddiannus i lansio'r cwch ac i gysylltu i'r tractor. Pwysleiswyd nad oedd newid i ôl-troed yr adeilad ond yn hytrach newidiadau sylweddol tu fewn fel y gall y cwch newydd gael mynediad rhwydd i'r adeilad. Bwriedir gosod ystafell y Criw ar lawr uchaf yr estyniad gyda ffenestr bae i edrych dros yr aber. Teimlir bod hyn y ffordd orau ymlaen gyda chefnogaeth frwd i'r cynllun a fydd yn sylfaen cadarn i'r bad achub ar gyfer y 50 mlynedd nesaf. Edrychir ymlaen at y gwaith cychwynnol yn ystod gaeaf 2015 gyda'r bwriad i'w gwblhau cyn y Pasg 2016.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 6. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

**Penderfynwyd Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Mawrth, 3 Mawrth 2015.**

**CADEIRYDD.**

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

***03 Mawrth / March 2015***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

1. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

   - Derbyn sylwadau Aelodau ar y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive observations of Members on the Port Marine Safety Code.

   - Materion yn codi ynglyn a Cod Diogelwch Harbwr / Matters arising relevant to the Port Marine Safety Code

2. ***Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees***

   - Cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2015 / Confirmation of Aberdyfi Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2015

   - Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2015/ Aberdyfi Harbour Consultative Committee Representatives 2015

3. ***Mordwyo ac Angorfeydd***
   ***Navigation and Moorings***

   - Cymhorthion Mordwyo – cynllun Cynnal a Chadw / Aids to Navigation – Maintenance plan
   - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
   - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
   - Cynnal a gosod Angorfeydd 2015 / 2015 Mooring Maintenace and positioning
   - Gofynion Tystysgrif Angorfeydd / Mooring Certificate requirements

4. ***Cyllidebau Harbyrau***
   ***Harbour Budgets***

   - Targedau Cyllideb Cyfredol 2014-15 / 2014-15 Budget Targets
   - Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
   - Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
   - Ffioedd Angorfeydd 2015 Fees and Charges

# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
# Harbour Consultative Committee

***03 Mawrth / March 2015***

***5. Gwelliannau / Improvements***

- Ansawdd Dwr Ymdrochi – diweddariad gan Uwch swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru / Bathing Water Quality – update from Senior Officer Natural Resources Wales
- Gwobr Traeth / Beach Award 2015
- Wal y Cei – Diweddariad ar waith Ymgynghoriaeth Gwynedd / Quay Wall Development Progress report.
- Cais CPBC / CBFA Proposal
- Datblygiad Adeilad y Bad Achub / RNLI Building Improvement

***6. Staff Harbwr / Harbour Staff***

- Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2015 – Spring/Summer Staff Arrangements 2015
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

# ***CYNGOR GWYNEDD COUNCIL***

## ***RHEOLIADAU CYFFREDINOL I DDEFNYDDWYR HARBWR***

### ***DYRANNIR ANGORFEYDD YN DDAROSTYNGEDIG I'R TERMAU A RHEOLAU CANLYNOL***

1. Rhaid cyflwyno unrhyw gais am angorfa ar ffurflen briodol gais angorfa Cyngor Gwynedd.

2. Rhaid i bob ymgeisydd dalu ffioedd cywir yn llawn i'r Awdurdod Harbwr cyn y 1af o Dachwedd ym mhob blwyddyn ariannol, ac eithrio ceisiadau hwyr ble fydd rhaid talu'r ffioedd cywir yn llawn oddi fewn 14 diwrnod o gadarnhau derbyn yr angorfa.

3. Fe fydd yn rhaid i bob ymgeisydd gydymffurfio ac is ddeddfau'r harbwr ac unrhyw reol ychwanegol a fydd wedi ei gyflwyno gan yr Awdurdod Harbwr. Gellir archwilio'r is ddeddfau drwy drefniant gyda'r Harbwr Feistr. Fe fydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ar bob achos, ac mewn pob ystyriaeth, gydymffurfio a rheoliadau diogelwch a fyddai yn ymwneud ag y math o gwch ac angorir oddi fewn awdurdodaeth yr harbwr ar hyd y cyfnod.

4. Fe fydd yr ymgeisydd yn derbyn bod yr angorfa a fu wedi ei gynnig ar gyfer y cwch a fydd wedi ei enwi yn y ffurflen cais am angorfa.

5. Ni chaiff yr ymgeisydd, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Harbwr, drosglwyddo, neu isosod yr angorfa.

6. Fe fydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dderbyn cyfrifoldeb llwyr am ddiogelu'r cwch i offer yr angorfa ar bob achos. Mae'r ymgeisydd yn hollol gyfrifol am ddarparu offer addas a priodol a fyddai yn diogelu'r cwch i'r codwr angor/stanc. Fe fydd yn ofynnol i'r perchennog hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig pe ddigwyddi'r unrhyw ddifrod i eiddo'r Awdurdod Harbwr, ac ymhellach, i ddigolledu'r Awdurdod Harbwr oddi wrth, ac yn erbyn, unrhyw gais am iawndal, neu gostau eraill a gyfodir.

7. Mae yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig oddi fewn tri deg diwrnod pe bydd yn penderfynu gadael yr angorfa yn barhaol yn ystod y tymor.

8. Bydd y Cyngor yn ystyried ad-dalu ffioedd angorfeydd pan fydd y cytundeb angori yn cael ei ddiddymu gan y perchennog / cwsmer am resymau na ellid eu rhagweld ar yr adeg pan wnaed y cytundeb, ac sydd y tu hwnt i reolaeth y perchennog / cwsmer. Bydd yna ddim ad daliad am angorfeydd sydd yn cael eu diddymu ar ôl y 31ain Awst.

   Cyfrifir ad-daliadau gan ddefnyddio rheol 18 mis, pan fo'r tal blynyddol yn cael ei rannu i 18 rhan gyda phob mis calendr o fis Ebrill dan fis Medi, yn gynwysedig, yn werth 2/18, a phob mis calendr o fis Hydref tan fis Mawrth, yn gynwysedig, yn werth 1/18.

9. Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn derbyn unrhyw atebolrwydd pa beth bynnag, am farwolaeth, neu anaf i unrhyw berson, neu ddifrod i eiddo'r ymgeisydd, ei wahoddion, asiant, gyflogwr, neu unrhyw berson arall oni bai pe byddai'r achos yn arddangos esgeulustod ar ran yr Awdurdod Harbwr, eu gweision, neu asiant. Fe fydd yr ymgeisydd yn digolledu, a chadw'r Awdurdod Harbwr yn erbyn unrhyw gais, cholled, neu hawlied yn codi oddi yno.

10. Fe fydd rhaid i'r ymgeisydd fod gydag yswiriant 'Trydydd Parti' gyda chwmni yswiriant bri i'r isafswm o £2,000,000, ac fe fydd yn rhaid arlwyo manylion gyda chais yr ymgeisydd.

***Drwy Orchymyn - Cyngor Gwynedd***

# CYNGOR GWYNEDD

## PORTHLADDOEDD ABERMAW AC ABERDYFI

## (IS-DDEDDF RHIF 5)

## TYSTYSGRIF YNGLYN A CHYFLWR OFFER ANGORI

ENW: ..............................................................................

CYFEIRIAD CARTREF: ..............................................................................
[Cartref Parhaol]

..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

RHIF FFON CARTREF: ..............................................................................
[rhif ffon cartref parhaol]

## MAE MANYLION YR ANGORFA FEL A GANLYN

DYDDIAD GOSOD CYNTAF ..........................................................................................

ANGORAU [MATH/NIFER/PWYSAU] ....................... CADWYN DAEAR ...............

MAINT GEFYNNAU CANOL Y RHYCHWANT .......................................................

CADWYN ANGORI ...................... SWIFL .................... MAINT GEFYN ..................

LIW/MATH Y CORFF .................................................. RHIF ANGORI ....................

ENW'R CWCH ..........................................................................................................

'Rwyf wedi ymgymryd a/wedi trefnu archwiliad o'r holl offer angori yn fy mherchnogaeth/ym mherchnogaeth y sawl a enwir uchod a thystiaf ei fod mewn cyflwr da.

***Perchenog***

LLOFNOD ............................................. ENW ........................................
[LLYTHRENNAU BRAS]

DYDDIAD .............................................

***Cyflenwr Gwasanaeth***

LLOFNOD ............................................. ENW ..........................................
[LLYTHRENNAU BRAS]

DYDDIAD .............................................

***Harbwr Feistr***

LLOFNOD ............................................. ENW ..........................................
[LLYTHRENNAU BRAS]

DYDDIAD .............................................

## ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***

| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi | Harbwr<br>Abermaw | Harbwr<br>Porthmadog | Harbwr<br>Pwllheli | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 45 | 111 | 39 | 183 | 46 | 102 Abersoch<br>8 Machroes<br>40 Trefor | 617 | 1191 |
| 2008 | 37 Harbwr<br>3 Tywyn | 92 | 30 | 147 | 25 | 65 Abersoch a Machroes<br>18 Trefor | 659 | 1076 |
| 2009 | 47 Harbwr<br>1 Tywyn | 81 Abermaw<br>24 Caerddaniel | 26 | 123 | 30 | 95 Abersoch<br>15 Machroes<br>29 Trefor | 702 | 1173 |
| 2010 | 37 Harbwr<br>0 Tywyn | 112 Abermaw<br>16 Caerddaniel | 28 | 160 | 32 | 110 Abersoch<br>17 Machroes<br>90 Warren<br>18 Trefor<br>17 Nefyn<br>38 Morfa Nefyn | 714 | 1389 |
| 2011 | 25 Harbwr<br>1 Tywyn | 63 Abermaw<br>10 Caerddaniel | 24 | 150 | 29 | 62 Abersoch<br>12 Machroes<br>12 Warren<br>31 Trefor<br>7 Nefyn<br>45 Morfa Nefyn | 701 | 1172 |
| 2012 | 23 Harbwr<br>4 Tywyn | 48 Abermaw<br>18 Caerddaniel | 23 | 23 | 8 | 70 Abersoch<br>4 Machroes<br>13 Trefor<br>14 Nefyn<br>25 Morfa Nefyn | 604 | 877 |
| **2013** | **27 Harbwr<br>9 Tywyn** | **54 Abermaw<br>11 Caerddaniel** | **22** | **16 Harbwr<br>60 Hafan** | **22** | **92 Abersoch<br>14 Machroes<br>22 Trefor<br>17 Nefyn<br>24 Morfa Nefyn<br>38 Aberdaron** | **553** | **981** |
| **2014** | **54 Harbwr<br>8 Tywyn** | **64 Abermaw<br>11 Caerddaniel** | **24** | **118 Total<br>Boat Care<br>8 Harbwr<br>85 Hafan** | **19** | **115 Abersoch<br>3 Machroes<br>30 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>21 Trefor<br>19 Aberdaron** | **408** | **1001** |

# <u>Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit</u>
## <u>Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations</u>

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi | Harbwr Abermaw | Harbwr Porthmadog | Harbwr Pwllheli | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 31 | 111 | 66 | 79 | 175 | 90 Abersoch<br>11 Machroes<br>6 Trefor | 471 | 1040 |
| 2008 | 32 | 79 | 46 | 68 | 150 | 91 Abersoch a Machroes<br>2 Trefor | 403 | 871 |
| 2009 | 27 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 69 Abermaw<br>18 Caerddaniel | 45 | 51 | 185 | 107 Abersoch<br>8 Machroes | 374 | 892 |
| 2010 | 27 Aberdyfi | 83 Abermaw<br>17 Caerddaniel | 39 | 63 | 201 | 99 Abersoch<br>3 Machroes<br>22 Warren<br>1 Trefor<br>1 Nefyn<br>9 Morfa Nefyn | 400 | 965 |
| 2011 | 23 Aberdyfi | 40 Abermaw<br>7 Caerddaniel | 51 | 65 | 168 | 71 Abersoch<br>3 Machroes<br>9 Warren<br>3 Nefyn<br>8 Morfa Nefyn | 382 | 830 |
| 2012 | 9 Aberdyfi | 37 Abermaw<br>7 Caerddaniel | 25 | 7 | 85 | 53 Abersoch<br>2 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>3 Nefyn<br>1 Trefor | 390 | 625 |
| **2013** | **16 Aberdyfi<br>10 Tywyn** | **55 Abermaw<br>6 Caerddaniel** | **36** | **2 Harbwr<br>23 Hafan** | **129** | **85 Abersoch<br>4 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>8 Nefyn<br>2 Trefor<br>4 Aberdaron** | **308** | **694** |
| **2014** | **22 Aberdyfi<br>1 Tywyn** | **65 Abermaw<br>5 Caerddaniel** | **20** | **36 Total Boat Care<br>1 Harbwr<br>47 Hafan** | **143** | **88 Abersoch<br>5 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron** | **250** | **693** |

## DG55 - Harbwr Aberdyfi

| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymiadau | Gweddill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AGWE | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 39,740 | -20 | 39,720 | 0 | -39,720 | 7,236 | -32,484 |
| | 0150 | Gweithwyr Llaw | 0 | 0 | 0 | 25,262 | 25,262 | | 25,262 |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 2,400 | 0 | 2,400 | 0 | -2,400 | | -2,400 |
| | 0250 | Gweithwyr Llaw | 0 | 0 | 0 | 1,604 | 1,604 | | 1,604 |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 9,080 | 10 | 9,090 | 0 | -9,090 | | -9,090 |
| | 0350 | Gweithwyr Llaw | 0 | 0 | 0 | 5,161 | 5,161 | | 5,161 |
| | 0709 | Tanysg I Gyrff Proffesiynol | 50 | 0 | 50 | 0 | -50 | | -50 |
| | 0731 | Lwfans Teliffon | 330 | 0 | 330 | 0 | -330 | | -330 |
| | 0810 | Costau Arlwyo A Man Cyfarfod | 0 | 0 | 0 | 31 | 31 | | 31 |
| AGWE | | Sum: | **51,600** | **-10** | **51,590** | **32,057** | **-19,533** | **7,236** | **-12,297** |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymiadau | Gweddill |
| BEID | 1200 | Cynnal A Chadw Adrannau | 14,320 | 0 | 14,320 | 0 | -14,320 | | -14,320 |
| | 1211 | Allanol-Muriau Solet/Strwythur | 0 | 0 | 0 | 3,077 | 3,077 | 6,000 | 9,077 |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol | 2,030 | 0 | 2,030 | 0 | -2,030 | | -2,030 |
| | 1404 | Offer A Chelfi - Pryniant | 0 | 0 | 0 | 780 | 780 | | 780 |
| | 1435 | Contractwr - Torri Gwellt | 0 | 0 | 0 | 418 | 418 | | 418 |
| | 1440 | Contractwr - Taliadau Diogelu | 0 | 0 | 0 | 205 | 205 | | 205 |
| | 1510 | Trydan | 1,190 | 0 | 1,190 | 924 | -266 | | -266 |
| | 1730 | Dwr - Mesurydd | 0 | 0 | 0 | 1,159 | 1,159 | | 1,159 |
| | 1731 | Dwr - Trethi Cynnwys Traenio | 330 | 0 | 330 | 134 | -196 | | -196 |
| | 1830 | Offer Diffodd Tan-Pensaer | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| | 1845 | Casglu Sbwriel-Preifat | 410 | 0 | 410 | 0 | -410 | | -410 |
| BEID | | Sum: | **18,280** | **0** | **18,280** | **6,697** | **-11,583** | **6,000** | **-5,583** |
| Type | Account | Disgrifiad | Budget 2 | Addasiad | Budget 1 | Actuals | Gweddill | Ymrwymiadau | Gweddill |
| CTRA | 2100 | Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir | 600 | 0 | 600 | 0 | -600 | 400 | -200 |
| | 2101 | Petrol | 0 | 0 | 0 | 242 | 242 | | 242 |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol | 130 | 0 | 130 | 0 | -130 | | -130 |
